**Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro**

**Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, 26 Chwefror 2020**

**Crynodeb o'r Cyfarfod**

## 1. Croeso a Chyflwyniadau

Estynnodd Llywodraeth Cymru (LlC) groeso i'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2019.

## 3. Y Diweddaraf am y Bil

Rhoddodd LlC y diweddaraf am gynnydd y Bil, gan roi gwybod i'r grŵp fod y Bil yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd am effaith y ddeddfwriaeth, ymhen tair a phum mlynedd ar ôl ei rhoi ar waith.

## 4. Y diweddaraf am y Grŵp Gweithredu Strategol a'r grwpiau Gorchwyl a Gorffen eraill

Rhoddodd LlC y diweddaraf am waith y grwpiau Gorchwyl a Gorffen eraill.

## 5. Y diweddaraf am gasglu a monitro data'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol

<u>Yr Heddlu</u>

Rhoddodd LlC wybod i'r grŵp fod yr opsiynau ar gyfer casglu a monitro data'r heddlu wedi'u cyflwyno i'r Grŵp Gweithredu Strategol ar 3 Chwefror. Hoff ddewis y Grŵp Gweithredu Strategol oedd cynnal archwiliad awtomataidd o ddata'r heddlu trwy ddefnyddio prosesu iaith naturiol (NLP), neu archwilio achosion â llaw pe na bai hyn yn ddichonadwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn cynnal trafodaethau dichonoldeb gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

<u>Y Gwasanaethau Cymdeithasol</u>

Esboniodd LlC fod y gwaith o gasglu data ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei ymgorffori mewn adolygiad presennol o ddata a gasglwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru, yn ôl gorchymyn Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan.

Esboniodd cynrychiolydd y gwasanaethau cymdeithasol yr amserlen ar gyfer gweithredu'r metrigau mewn casgliadau data. O ganlyniad, mae'n debygol iawn y bydd modd casglu data am flwyddyn cyn i'r gyfraith ddod i rym.

## 6. Llythyr y Dirprwy Weinidog ynglŷn â'r Adolygiad Ôl-weithredu

Esboniodd LlC fod rhai newidiadau a gyflwynwyd trwy Gyfnodau 2 a 3 y Bil wedi cynnwys argymhellion manwl ynghylch adrodd am ddata. Cytunodd y Dirprwy Weinidog y dylid ychwanegu dyletswydd at wyneb y bil i adrodd am effeithiau'r newid deddfwriaethol ymhen tair a phum mlynedd ar ôl ei roi ar waith. Fodd bynnag, nid

oedd newidiadau eraill, a geisiai ychwanegu manylion yn ymwneud â dyletswydd yr adolygiad ôl-weithredu a'r mathau o ddata a gesglir, yn ofynnol ar wyneb y Bil. O ran y pwyntiau hyn, cytunodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n ysgrifennu at y Grŵp Gweithredu Strategol a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro yn gofyn i'r ddau grŵp drafod cynnwys tebygol yr adolygiad ôl-weithredu ac ystyried yr elfennau ymarferol o ran ymdrin â'r materion y tynnwyd sylw atynt yn ystod Cyfnod 2. Rhannwyd copi o'r llythyr hwn gydag aelodau'r grŵp ar Gasglu Data a Monitro cyn y cyfarfod.

Cynhaliwyd trafodaeth agored ymhlith y grŵp yn ymwneud â'r pwyntiau a godwyd, a chytunodd y grŵp i ystyried ymhellach y materion a godwyd cyn adrodd yn ôl i'r Grŵp Gweithredu Strategol ynglŷn â chynnwys tebygol yr adolygiad ôl-weithredu.

**7. Cynlluniau gwaith ar gyfer pob sefydliad**

Holltodd y grŵp yn is-grwpiau er mwyn trafod cynllun gwaith pob sefydliad.

Cafodd y cynllun gwaith canlynol ei ddrafftio*.

*** Sylwer: dyma'r cynllun gwaith fel y'i drafftiwyd ym mis Chwefror 2020.**

<u>Amserlen</u>

| 2020 | Yr Heddlu | Y Gwasanaethau Cymdeithasol | Y System Gyfiawnder | Arall |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill** | - Cychwyn trafodaethau i gofnodi niferoedd y sgyrsiau strategol ynghylch cydweithio yn Heddlu Dyfed Powys.<br><br>- Rhoi astudiaeth ddichonoldeb ar waith i ddrafftio'r rhaglen (tan fis Ebrill 2021) | Y gwaith o weithredu'r fframwaith perfformiad yn dechrau. | | |
| **Mai** | Dechrau cynllunio mynediad at ddata'r Heddlu a'r adnoddau ar gyfer dadansoddi | | | |
| **Gorffennaf** | | | Rhoi trafodaethau ar waith gyda | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi | |
| **Awst** | | | | |
| **Medi** | | Nodi a welir cynnydd mewn achosion a atgyfeirir oherwydd yr ymgyrch gyfathrebu [Sylwer: yn awr, bydd yr ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd yn dechrau'n hwyrach oherwydd y pandemig Covid-19] | | |
| **Mawrth 2021** | | | | |
| **Ebrill** | Dechrau dadansoddi'r data. | Dadansoddi'r themâu a ddaw i'r amlwg wrth i'r gwaith casglu data fynd yn ei flaen. | | |
| **Mawrth 2022** | | Gwneud cais am ddata gan y Gwasanaethau Cymdeithasol | Dechrau casglu data'n ymwneud ag erlyniadau ac euogfarnau. | |
| **Medi** | Llunio adroddiad sylfaenol yn ymwneud â'r data. | Llunio adroddiad sylfaenol yn ymwneud â'r data. | | |